SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD:	**MENTOR LLWYDDIANT DYSGWYR**
STATWS:	**CYTUNDEB HYD AT 30 MEHEFIN 2022**
CYFLOG:	**GRADDFA 3 - £9,693 - £10,379 Y FLWYDDYN** **(£19,636 - £21,027 Y FLWYDDYN AR SAIL LLAWN AMSER).**
ORIAU GWAITH:	**25 AWR YR WYTHNOS, DYDD LLUN I DDYDD GWENER** **CYTUNDEB TYMOR YN UNIG – 32 WYTHNOS Y FLWYDDYN**
LLEOLIAD:	**COLEG MENAI – CAMPWS LLANGEFNI Â/NEU BANGOR** **(1 SWYDD AR GAEL)**
YN ATEBOL I:	**RHEOLWR MAES RHAGLEN**

Cyflwyniad i'r swydd:

- **Ydych chi yn hoffi gweld pobl ifanc yn llwyddo?**
- **Oes gennych chi y sgiliau i gael y gorau allan o bobl ifanc?**
- **Ydych chi'n berson agored; hwyliog a phenderfynol?**
- **Ydych chi yn hoffi gweithio a helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?**

.....Os ydych yn ateb yr uchod yn gadarnhaol ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol pobl ifanc yng Ngwynedd a Môn, yna mae'r swydd hon yn ddelfrydol ar eich cyfer chi. Byddwch yn gweithio gyda thîm o staff ymroddedig eraill i sicrhau cyfleon a chefnogaeth deilwng i ddysgwyr Coleg Menai/Coleg Meirion-Dwyfor.

PWRPAS Y SWYDD

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn peilota swyddogaeth newydd sef Mentor Llwyddiant Dysgwyr(MLlD). Bydd deiliaid y swyddi hyn yn cefnogi ein dysgwyr llawn amser i uchafu eu presenoldeb yn y coleg, canolbwyntio a chyflawni eu nodau addysgiadol.

Bydd y MLlD yn cael eu rheoli yn uniongyrchol gan Reolwyr Maes Rhaglen ac fe fyddant yn cefnogi tiwtoriaid personol i ddelio gyda'r materion dysgwyr canlynol:

- Diffyg Presenoldeb
- Ymddygiad annerbyniol
- Methiant i gwblhau gwaith colegol

Bydd prif gyfrifoldebau y MLlD fel a ganlyn:

1. Cydweithio gyda staff y dysgu i sicrhau bod y dysgwyr sydd angen eu cefnogi yn cael eu hadnabod yn gynnar

2. Monitro presenoldeb dysgwyr gan ddilyn i fyny ar unrhyw faterion yn syth

3. Annog a mentora dysgwyr i wella eu presenoldeb

4. Annog a mentora dysgwyr sydd ddim yn cwblhau eu tasgau gwaith ac aseiniadau

5. Cynnal cofnodion perthnasol a chyfredol

Cyfrifoldebau Cyffredinol yn y Coleg

1. Cyfrannu'n effeithiol at y gwaith o gynnig profiadau o ansawdd uchel i'r holl ddysgwyr ym maes addysg a hyfforddiant, gan ddarparu gwasanaethau mewn modd priodol ac ymatebol sy'n cyrraedd y safon uchaf bosibl o ran gofalu am gwsmeriaid.

2. Bod yn ymwybodol o holl bolisïau, gweithdrefnau, arferion gwaith a rheoliadau'r coleg, a gweithio'n unol â hwy fel y bo'n berthnasol. Yn benodol, cydymffurfio â Chynllun Cydraddoldeb Unigol, Polisi Diogelu, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iechyd a Diogelwch a Chod Ymddygiad Grŵp Llandrillo Menai.

3. Ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill ar adegau prysur yn ystod y broses dderbyn.

4. Ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad staff priodol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni dyletswyddau a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

5. Unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol y gofynnir i'r MLlD ymgymryd a hwy yn achlysurol

MANYLEB Y PERSON

Hanfodol:

- Addysg Gyffredinol o safon dda gyda NVQ Lefel 2 neu gyffelyb gan gynnwys cymhwyster Llythrennedd a Rhifedd ar Lefel 2
- Empathi a dealltwriaeth o'r anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc ôl-16.
- Y gallu i weithio fel rhan o'r tîm ac i weithio'n annibynnol.
- Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol effeithiol a'r gallu i weithio gydag amrywiaeth eang o ddysgwyr a staff.
- Sgiliau TG da
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc 16–19 oed.
- Yn deall sut mae dysgwyr yn datblygu ac yn dysgu, a deall yn arbennig y pethau sy'n llesteirio cynnydd.
- Yn gwybod am y gwahanol wasanaethau/darparwyr cefnogi sydd ar gael i ddysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol.
- Gallu cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dymunol:

- Hyfforddiant neu Gymhwyster Sgiliau Sylfaenol
- Cymhwyster Anogwr Dysgu/Mentor Dysgu neu'r parodrwydd i'w ennill o fewn 3 mis o gael eich penodi
- Hyfforddiant rheoli ymddygiad
- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid
- Cymhwyster Dysgu

Grŵp Llandrillo Menai

JOB DESCRIPTION

POST TITLE	**LEARNER SUCCESS MENTOR**
STATUS	**CONTRACT TO 30 JUNE 2022**
SALARY	**GRADE 3, £9,693 - £10,379 PER ANNUM** **(£19,636 - £21,027 PER ANNUM BASED ON FULL TIME)**
WORKING HOURS	**25 HOURS PER WEEK, MONDAY TO FRIDAY** **TERM TIME ONLY CONTRACT - 32 WEEKS**
LOCATION	**COLEG MENAI – LLANGEFNI AND / OR BANGOR CAMPUSES** **(1 POST AVAILABLE)**
REPORTING TO	**PROGRAMME AREA MANAGERS**

JOB INTRODUCTION:-

- **Do you like to see young people succeed?**
- **Do you have the skills to get the best out of young people?**
- **Are you and "open" person, fun and determined?**
- **Do you like to work and help young people achieve their potential?**

…….if you answer yes to all the above and want to make a difference to the lives and futures of young people in Gwynedd and Anglesey, then this post is ideal for you! You will work with a team of other dedicated staff to ensure worthy opportunities and support for Coleg Menai / Coleg Meirion Dwyfor Learners.

Job Purpose

Grŵp Llandrillo Menai is piloting a new role called Learner Success Mentor (LSM) These staff will support our full-time students to maximise their attendance at college, stay on track and achieve their learning goals.

The LSM will be line-managed by the Programme Area Manager and will support Personal Tutors with the following student issues:

- Non attendance;
- Poor behaviour; and
- non completion of college work.

Duties of the LSM will be to:

1. Liaise with the curriculum delivery staff and learner services staff to ensure that those learners that require coaching are identified early.

2. Monitor student attendance and follow up any emerging issues immediately.

3. Coach and mentor students to improve their attendance.

4. Coach and mentor students who are not completing set tasks and assignments.

5. Maintain appropriate and up to date records.

General College Responsibilities

1. To effectively contribute towards the delivery of a high quality educational and training experience for all learners, delivering services in a way that is appropriate and responsive and which displays the highest standard of customer care.

2. To be aware of, and work in accordance with all college policies, procedures, working practice and regulations as applicable. In particular to comply with Grŵp Llandrillo-Menai's Single Equality Scheme, Safeguarding Policy, Financial Regulations, Health & Safety Policy and Code of Conduct.

3. To undertake other duties as may be reasonably required during busy times of the admission process.

4. To undertake appropriate training and staff development to support the effective delivery of duties and services.

5. Any other reasonable duties that the LSM may be required to undertake periodically.

PERSON SPECIFICATION

Essential

- Good general education at NVQ level 2 or equivalent including literacy & numeracy at Level 2
- Empathy and understanding of the challenges faced by young people post 16.
- Ability to work as part of a team and to work independently.
- Effective communication skills and interpersonal skills and ability to work with a diverse range of learners and staff.
- Good IT skills.
- Experience of working with young people aged 16 – 19
- An understanding of learner development and learning processes and in particular, barriers to progression.
- Understanding of the range of local and national support services/providers
- Ability to communicate effectively through the medium of Welsh and English

Desirable

- Basic Skills awareness training or qualification
- Learning Coach / Mentoring Qualification (willingness to undertake upon/prior to appointment)
- Behaviour management training
- Youth work qualification
- Teaching qualification